Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/04

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA.
SeneddCYPE@cynulliad.cymru

09/09/2016

Annwyl Gadeirydd

**Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Diolch am y cyfle i gynnig barn ar faterion y gallasai'r pwyllgor roi sylw iddynt wrth graffu ar y maes Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Rwy'n rhagweld y gall y Pwyllgor fod â diddordeb mewn darnau penodol iawn o waith gaiff eu cyflawni ac y cyhoeddir gwybodaeth amdanynt gennyf o dro i dro dros gyfnod y Cynulliad. Gall materion godi yn sgil gwneud gwaith ymchwil, cyhoeddi adroddiadau, gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru, neu yn sgil fy swyddogaeth o roi cyngor i unrhyw berson. Byddaf hefyd yn fodlon cynghori'r Pwyllgor yn ôl yr angen ar faterion strategol sy'n ofynnol er mwyn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru.

Mae hefyd yn bosibl y bydd materion o fudd cyhoeddus yn arwain at drafodaeth Pwyllgor yn sgil fy mod wedi dyfarnu ar ymchwiliad i achos neu oherwydd fy mod wedi cyhoeddi adroddiadau ar ymchwiliadau o fethiant i gydymffurfio â safonau.

<u>Materion penodol y gallasai'r Pwyllgor graffu arnynt</u>

1. Un o'm dyletswyddau statudol yw paratoi adroddiad bob 5 mlynedd ar sefyllfa'r iaith Gymraeg. Cyhoeddais yr adroddiad cyntaf o'i fath yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Rhoddir cryn ffocws ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr adroddiad, fel prif ffynhonnell siaradwyr Cymraeg heddiw. Nodir yn yr adroddiad hwnnw rhai materion y mae angen mynd i'r afael â hwy ym maes addysg, gan gynnwys:

    - Lle'r Gymraeg o fewn polisi a deddfwriaeth addysg yng Nghymru

**Comisiynydd y Gymraeg**
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.org

**Welsh Language Commissioner**
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

- Cynyddu isadeiledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan gynnwys materion megis cludiant
- Ateb a chynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg
- Dilyniant ieithyddol o un cyfnod addysg i'r nesaf
- Sicrhau cyflenwad priodol o adnoddau Cymraeg a staff sydd â sgiliau Cymraeg
- Addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog

Mae copi o'r adroddiad ar gael yma - http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/Pages/Adroddiad%205-mlynedd.aspx. Bydd aelodau'r pwyllgor yn derbyn copi caled o'r adroddiad yn fuan. Credaf y gallasai cynnwys a chanfyddiadau'r adroddiad mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg fod o ddiddordeb i'r pwyllgor wrth benderfynu ar ei flaenoriaethau craffu dros y blynyddoedd nesaf.

*2. Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru*

2.1 Gan droi at faterion polisi penodol, rhoddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad sylw i addysg cyfrwng Cymraeg a cytunodd y pwyllgor hwnnw y dylid parhau i wneud hynny yn ystod y pumed Cynulliad

'*Dylai unrhyw Bwyllgor olynol ystyried canlyniadau'r gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a gofyn am wybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ar y camau y mae'n bwriadu eu cymryd wrth ymateb, gan gynnwys unrhyw oblygiadau ar gyfer rôl a swyddogaeth Cynlluniau Strategol*'. (Argymhelliad 7, Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc a Sgiliau).

2.2 Cynhaliodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y pedwerydd Cynulliad ymchwiliad i Gynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg ac yn sgil hynny cynigiwyd 17 o argymhellion i Weinidogion Cymru ar gyfer gwella'r fframwaith cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Credaf y byddai'n fuddiol ac yn amserol i'r pwyllgor adolygu cynnydd yng ngweithrediad yr argymhellion hyn. Un opsiwn i'r pwyllgor fyddai adolygu cynnydd yng ngweithrediad yr argymhellion hyn a'r argymhellion wnaeth ddeillio o werthusiad y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ar y cyd, gan eu bod yn cyffwrdd ar yr un materion yn aml.

2.3 Paratowyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn 2010. Daeth cyfnod y strategaeth i ben yn 2015 a chyhoeddwyd datganiad polisi ar addysg cyfrwng Cymraeg ym mis Mawrth 2016. Mae'r angen am strategaeth glir ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg dros y blynyddoedd nesaf er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol gan rieni yn rhywbeth y gallasai'r Pwyllgor roi sylw iddo wrth graffu ar waith y Llywodraeth ym maes addysg.

*3. Gofal trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant 0-3 oed*

3.1 Yn 2013-15 cynhaliais ddarn sylweddol o waith ymchwil i ddefnydd y Gymraeg yng Nghymru ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Fel y nodir yn yr adroddiad ar y gwaith hwnnw, *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15*, mae cydberthynas agos rhwng pryd y mae rhywun yn dysgu'r Gymraeg a'r tebygolrwydd y byddant yn rhugl

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

ar ddiwedd y daith. Dengys y dystiolaeth a gasglwyd mai po gynharaf y mae rhywun yn dechrau dysgu'r Gymraeg y mwyaf tebygol y maent o ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg rhugl. Ni wyddys yn union faint o blant 0-3 oed sy'n derbyn gofal trwy gyfrwng y Gymraeg. Ymddengys na fu twf yn nifer y rheini sy'n derbyn eu gofal yn Gymraeg yng nghylchoedd y Mudiad Meithrin dros y blynyddoedd diwethaf. Os am greu siaradwyr Cymraeg newydd sy'n rhugl ac yn ddigon hyderus yn eu sgiliau Cymraeg i fod yn defnyddio'r iaith bob dydd, mae gwir angen mynd i'r afael â'r ddarpariaeth gofal meithrin cyfrwng Cymraeg, gan roi mesurau cadarn yn eu lle ar gyfer twf. Yn y datganiad polisi ar addysg cyfrwng Cymraeg a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ym mis Mawrth eleni, nodir y bwriad i '*ddatblygu cynllun ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sectorau gofal plant a blynyddoedd cynnar*'. Wrth gychwyn ar y broses o baratoi'r cynllun hwnnw efallai yr hoffai'r Pwyllgor gasglu tystiolaeth fel sail i baratoad y cynllun.

*4. Addysgu a hyfforddi gweithlu'r dyfodol*

4.1 Mae datblygu gweithlu dwyieithog yn gwbl allweddol er mwyn gwireddu hawliau pobl Cymru i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg ac i ymwneud â sefydliadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen gweithwyr sy'n gymwys i gyflawni eu swyddogaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ymhob math o swyddi rheng flaen, megis athrawon, doctoriaid, darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gweinyddwyr. Golyga hynny ddenu siaradwyr Cymraeg i hyfforddi ar gyfer y swyddi hyn a'u hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn eu paratoi i weithio'n hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2014/15, dim ond 0.09% o weithgareddau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach a gynhaliwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. 4.1% o fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru gafodd o leiaf rhywfaint o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2013/14; a rhwng 2008 a 2013 13.8% prentisiaeth oedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelir felly mai trwy gyfrwng y Saesneg yr hyfforddir y mwyafrif llethol o weithlu'r dyfodol yng Nghymru ar hyn o bryd. Bydd angen hyfforddi llawer mwy o weithwyr i wasanaethu trwy gyfrwng y Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf felly.

2.6 Credaf y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor ddechrau'r drafodaeth ar sut mae gwyrdroi cyfrwng iaith addysg bellach ac uwch yng Nghymru er mwyn sicrhau gweithlu dwyieithog i'r dyfodol. Yn wir mae angen ystyried a oes angen strategaeth genedlaethol ar gyfer diwallu gofynion sgiliau Cymraeg y gweithlu gan weithio ar draws asiantaethau a phontio rhwng byd addysg a chyflogwyr. Bydd yn hollbwysig

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

sicrhau bod diwallu gofynion y gweithlu o ran sgiliau Cymraeg yn rhan o weithredu'r fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru a argymhellwyd yn adroddiad yr Athro Hazelkorn a gyhoeddwyd yn gynharach yn 2016. Adroddiad arall a fydd â goblygiadau pwysig iddo o ran y Gymraeg ym myd addysg fydd canfyddiadau adroddiad yr Athro Diamond ar drefniadau cyllido addysg uwch a gyhoeddir cyn diwedd 2016. Mae'n hollbwysig y bydd penderfyniadau a wneir ynghylch ariannu addysg uwch ar ôl cyhoeddi'r adroddiad yn sicrhau cyfleoedd i ymestyn cyfleoedd myfyrwyr i dderbyn darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg yn y sector.

*Y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd i Gymru*

2.7 Yn yr adroddiad ar ei adolygiad o'r cwricwlwm addysg yng Nghymru, *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*, cynigiodd yr Athro Donaldson gyfres o argymhellion ar gyfer gwella sefyllfa'r Gymraeg yn y cwricwlwm Cymreig. Ymysg y rheini mae'r angen i wella sgiliau rhyngweithredol ein pobl ifanc yn y Gymraeg a sicrhau gwell ymwybyddiaeth o werth gwybyddol a masnachol sgiliau Cymraeg. Mae fframwaith o fesurau ar waith erbyn hyn i ddatblygu'r cwricwlwm yng Nghymru yn unol ag argymhellion yr Athro Donaldson, ond nid yw'n eglur i ba raddau mae ei argymhellion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn cael eu gweithredu. Gan gymryd bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw i ddatblygiad y cwricwlwm yn ystod cyfnod y pumed Cynulliad, credaf y byddai'n ddefnyddiol rhoi sylw fel rhan o'r gwaith hwnnw i'r graddau y mae'r Gymraeg yn rhan o'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r cwricwlwm newydd.

Hyderaf bydd y cynigion uchod o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Yr eiddoch yn gywir,

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg